# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 16/12/2025 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 29/12/2025 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 05/01/2026 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd R Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned)

**PWNC**

YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR EU 'CYNIGION AR GYFER CYFLWYNO CRONFA TWF LLEOL Y DG YNG NGHYMRU'

**PENDERFYNIAD –**

Cyflwyno'r llythyr ynghlwm (Atodiad 1) fel ymateb gan Cyngor Gwynedd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar eu 'Cynigion ar gyfer cyflwyno Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru'**.**

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**


Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**
**Adroddiad Swyddog**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | R Medwyn Hughes,<br>Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Dylan Griffiths,<br>Rheolwr, Gwasanaeth Datblygu'r Economi, Adran Economi a Chymuned |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 16 Rhagfyr 2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc:**

**YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR EU 'CYNIGION AR GYFER CYFLWYNO CRONFA TWF LLEOL Y DG YNG NGHYMRU'.**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cyflwyno'r llythyr ynghlwn (Atodiad 1) fel ymateb gan Cyngor Gwynedd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar eu 'Cynigion ar gyfer cyflwyno Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru'.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar eu cynigion ar gyfer gwireddu Cronfa Twf Lleol y DG (UK Local Growth Fund) yng Nghymru.

Y Gronfa Twf fydd prif olynydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) sydd - drwy law'r Cyngor - wedi buddsoddi £31.4 miliwn i gefnogi trigolion, mentrau a chymunedau Gwynedd ers 2022.

Mae cynigion Llywodraeth Cymru yn newid sylweddol, felly mae datgan barn Cyngor Gwynedd ar yr hyn sydd dan sylw yn bwysig er mwyn gwarchod buddiannau Gwynedd.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:**

Sefydlwyd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) yn 2022 gan y Llywodraeth flaenorol yn San Steffan fel rhan o'u hagenda Ffyniant Bro (Levelling Up). Roedd yn un o becyn ehangach o gefnogaeth ar gyfer buddsoddi rhanbarthol oedd cymryd lle pres Ewrop wedi Brexit.

Mae SPF yn cefnogi ystod eang o weithgaredd o fewn meysydd megis cefnogi cymunedau, adfywio, sgiliau, helpu bobl i waith, gwelliannau canol trefi a cefnogi busnesau a mentrau cymunedol ac mae pob sir yn derbyn dyraniad o'r SPF.

Nid oedd unrhyw rôl gan Lywodraeth Cymru yn yr SPF. Dyma Lywodraeth y DG yn rhoi'r arian yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol.

Roedd cyfnod gyntaf yr SPF dros dair blynedd o 2022/23 i 2024/25. Yn dilyn etholiad cyffredinol 2024 ychwanegwyd blwyddyn bellach i'r SPF ar gyfer 2025/26.

Ar draws y ddau gyfnod mae 54 o brosiectau yng Ngwynedd wedi derbyn £31.4 miliwn o'r SPF drwy law Cyngor Gwynedd. Mae gwybodaeth am y prosiectau ac enghreifftiau o'r hyn sydd wedi ei gyflawni ar gael ar wefan y Cyngor - yma.

Y Gronfa Twf Lleol

Roedd ymrwymiad ym maniffesto'r Blaid Llafur i etholiad cyffredinol 2024 y byddent yn dychwelyd rheolaeth arian i'r maes buddsoddi rhanbarthol (yn cynnwys yr SPF) i Lywodraeth Cymru.

Yn Mehefin dyma'r Canghellor yn addo swm yn cyfateb i gyllideb SPF 2025/26 Cymru (£210 miliwn) am dair blynedd (2026/27 i 2028/29), cyfanswm o £630 miliwn.

Erbyn hyn, mae cadarnhad fod bwriad rhannu'r arian rhwng:

- £83 miliwn i'r cronfeydd 'Balchder Bro' yng Nghymru
  *Llywodraeth y DG* yn rheoli ac yn rhoi arian yn uniongyrch i Awdurdodau Lleol. (Mae cadarnhad bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn £1.5 miliwn).
- £547 miliwn i 'Gronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru'
  *Llywodraeth Cymru* i reoli gan weithredu cynllun buddsoddi y byddent yn ei gytuno â Llywodraeth San Steffan.

Ar 07 Tachwedd dyma Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar eu 'Cynigion ar gyfer cyflwyno Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru'.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ar egwyddorion sylfaenol, blaenoriaethau craidd a'r amcanion ar gyfer buddsoddi arfaethedig Llywodraeth Cymru, ynghyd â'u cynigon ar sut y bydd y gronfa'n cael ei weithredu. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 12 Rhagfyr.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

DIM

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

Prif Swyddog Cyllid

*"Gall penderfyniadau'r Llywodraeth o safbwynt y Gronfa Twf Lleol gael effaith amlwg ar yr adnoddau sydd ar gael i Cyngor Gwynedd ac eraill i'w gwario o fewn cymunedau yn y sir. Fodd bynnag, nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol felly nid oes gennyf wrthwynebiad iddo o safbwynt priodoldeb ariannol."*

Swyddog Monitro

*"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."*

Aelod/au Lleol

*Dim yn fater lleol*

Aelod Cabinet Economi a Chymuned
Cabinet Member Economy & Community

Cynghorydd/Councillor R. Medwyn Hughes

T: 01286 679947
E: Cynghorydd.MedwynHughes@gwynedd.llyw.cymru

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Caerdydd CF99 1NA

18 Rhagfyr 2025

Drwy law e-bost i: Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
BuddsoddiRhanbartholyngNghymru@llyw.cymru

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

YMATEB CYNGOR GWYNEDD:
Ymgynghoriad 'Cynigion ar gyfer cyflwyno Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru'

Diolch am y cyfle i gyflwyno ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad uchod.

Mae'r Cyngor yn credu fod sicrhau parhad buddsoddiad priodol i gefnogi lles economaidd a chymdeithasol trigolion a chymunedau Gwynedd yn allweddol os am sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r sir.

Ynghyd a'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector, mae'r Cyngor yn gweithredu ystod o gynlluniau i gefnogi cymunedau, trigolion, busnesau a mentrau lleol yng Ngwynedd. Yn y cyfnod ers 2022 mae dros £31 miliwn wedi ei fuddsoddi yn llwyddiannus yn y sir drwy law 54 o gynlluniau sydd wedi eu hariannu o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF); a miliynau yn fwy wedi ei fuddsoddi drwy law arian o ffynonellau megis y Gronfa Ffyniant Bro a'r rhaglen Trawsnewid Trefi.

Er yn enw Cyngor Gwynedd, mae'r ymateb yn adlewyrchu dymuniadau ac adborth rhanddeiliaid a phrif sefydliadau ar draws pob sector yng Ngwynedd drwy law'r bartneriaeth sefydlwyd yng Ngwynedd i lywio gwireddu'r SPF yn y sir.

Rydym yn falch o gynnig y sylwadau isod i'ch sylw a'ch ystyriaeth:

1. Mae Cyngor Gwynedd yn credu fod yn annerbyniol mai dim yn Nhachwedd 2025 mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar eu bwriadau ar gyfer y cyfnod wedi i'r SPF ddod i ben. Gyda nepell pum mis cyn diwedd ariannu'r SPF mae dyfodol ystod o gynlluniau, gallu sefydliadol i wireddu a bywoliaeth nifer o unigolion dan fygythiad. Mae angen gweithredu yn uniongyrchol i warchod y sefyllfa.

Mae'r bwriad i sefydlu trefniant pontio ar gyfer flwyddyn gyntaf y Gronfa yn gydnabyddiaeth o'r risg, ond mae'n allweddol fod Llywodraeth Cymru yn cynnig sicrwydd o faint a chyfansoddiad y gyllideb ar gyfer 2026/27 yn unionsyth ac yn ymrwymo i finimeiddio unrhyw newid o drefniadau'r SPF i ganiatáu Awdurdodau lleol i symud yn gyflym i leihau ardrawiad negyddol diwedd y cyfnod ariannu presennol.

2. Nodwn ein siom mai dim ond £547 miliwn sydd wedi ei neilltuo i'r Gronfa Twf Lleol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o'r gyllideb SPF ar gyfer 2025/26 a hyn ar ben y toriad blaenorol o 43% i gyllideb 2024/25. Mae'r lleihad yn y gyllideb yn effeithio'n arbennig ar siroedd, megis Gwynedd, sydd dim ond am dderbyn swm pitw o gronfa Balchder Bro Llywodraeth y DG ac sydd hefyd am weld colled o ganlyniad i ddiwedd cyllid y rhaglen ARFOR.

   Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynnu swm teilwng gan Lywodraeth y DG ac i sicrhau fod mwyafrif y cyllid ar ffurf arian refeniw i uchafu hyblygrwydd defnydd yr arian.

3. Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod rhinweddau cadarnhaol yr SPF yn cael eu cynnal o fewn y drefn newydd. Credwn, yn benodol, fod yr hyblygrwydd o ran defnydd y cyllid, y drefn o rymuso ardaloedd i ymateb i'w anghenion o fewn fframwaith strategol a'r parodrwydd i ddatganoli cyfrifoldeb i Awdurdodau Lleol yn nodweddion sydd angen eu gwarchod.

4. Mae'r Cyngor yn cydnabod gall cydweithio rhanbarthol fod yn briodol ac ychwanegu gwerth o fewn rhai amgylchiadau. Ond, mae'n allweddol fod cydweithio ar sail cydsyniad lleol yn unig a bod rhyddid i ardaloedd ddewis dull o gydweithio sy'n briodol i'w hamgylchiadau. Mae'r rhaglen ARFOR yn enghraifft dda o gydweithio ar sail daearyddiaeth sy'n briodol i'r gweithgaredd dan sylw er bod hynny'n wahanol i ffiniau'r Cydbwyllgorau Corfforedig ac mae gofyn cynnal yr hyblygrwydd yma i'r dyfodol.

5. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod y dymuniad cadarnhaol sydd o fewn yr *uchelgais penodedig* ond, credwn dylid ymhelaethu ar y datganiad i adlewyrchu'r canlynol:

   a) Fod cefnogaeth gyhoeddus i dwf cynhyrchiant angen bod i berwyl cynyddu ffyniant ein trigolion a'n cymunedau; twf cynhwysol rydym yn ei ddymuno a'i angen.

   b) Mae'n fwriad mynd i'r afael ac anghydraddoldeb economaidd ar sail daearyddiaeth ac o fewn cymdeithas; mae hyn yn allweddol os am greu Cymru sydd yn fwy cyflawn a chynaliadwy. Dylid sicrhau mai i elwa'r ardaloedd a'r carfanau gyda'r angen mwyaf mae'r arian yn cael ei gyfeirio a bod cydnabyddiaeth benodol i ardrawiad ymyled ar ardaloedd a rôl yr economi yng ngwarchod y Gymraeg o fewn ei gadarnleoedd.

   c) Cydnabyddiaeth fod gan weithgaredd gwirfoddol a chymunedol rôl yn sbarduno a chefnogi cynhwysiad economaidd ynghyd â chynnal cyfalaf ac isadeiledd cymdeithasol; mae hyn yn arbennig o wir yn ardaloedd ble mae methiant gan y farchnad i ddiwallu anghenion pobl a'u cymunedau.

6. Mae'r Cyngor yn derbyn dilysrwydd yr *egwyddorion arweiniol* yn y ddogfen, ond yn cynnig y sylwadau canlynol:

   a) Dylid nodi mai sicrhau budd lleol ar lawr gwlad yw'r bwriad. Mae cyfeiriadau cyson o fewn y ddogfen at weithredu er budd rhanbarthol, credwn fod hyn yn chwithig, gweithredu yn rhanbarthol (ac yn genedlaethol) er budd lleol yw'r angen.

   b) Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu pwyslais y ddogfen at rymuso a datganoli penderfyniadau i ranbarthau unigol. Dylid hefyd sicrhau cyfeiriad at bwysigrwydd gweithgaredd lleol a chynnwys datganiad o blaid datganoli gweithgaredd a phenderfyniadau i'r haen isaf sy'n briodol, i uchafu'r budd.

   c) Mae'r Cyngor yn greiddiol fod modd grymuso ardaloedd lleol a sicrhau aliniad gweithgareddau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i uchafu'r budd o arian y Gronfa Twf a chyflawni newid strategol.

   ch) Croesawn y cyfeiriad at gynllunio'n strategol a dros amser, dylid hefyd gynnwys cyfeiriad at warantu cydbwysedd addas o gyllid refeniw a chyfalaf er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau.

   d) Dylid cynnwys cydnabyddiaeth fod natur llwyddiant (a thwf) yn amrywio yn unol â'r cyd-destun. Mae amrywiaeth ymhlith ardaloedd a rhanbarthau ledled Cymru; byddai dim ond cyfri niferoedd yn cyfeirio adnoddau i ardaloedd penodol (yn genedlaethol ac o fewn rhanbarthau) gan greu risg y bydd anghydraddoldebau daearyddol yn cael eu hategu.

7. Mae'r *dadansoddiad economaidd-cymdeithasol* yn adnabod ystod ddilys o heriau sydd *angen* sylw os am weithredu'n gadarnhaol o blaid gwella lles economaidd ein trigolion a'n cymunedau. Fodd bynnag, mae angen mwy o bwyslais ar ddadansoddi'r gwahaniaethau o fewn Cymru ar sail ranbarthol ac ardaloedd lleol.

   Mae'r Cyngor yn credu hefyd fod angen i'r dadansoddiad ychwanegu mwy o wybodaeth ac ystadegau ynglŷn â'r cyd-destunol (gan gynnwys proffil demograffig, siaradwyr Cymraeg, natur ymylol / gwledig ardaloedd, ayyb) i adlewyrchu yn well amgylchedd gweithredu'r Gronfa Twf a'r blaenoriaethau sydd dan sylw.

8. O ran y *blaenoriaethau ac amcanion* sydd wedi eu hawgrymu, dymuna'r Cyngor gynnig y sylwadau canlynol:

   a) Rydym yn cytuno fod yn briodol fod blaenoriaethau clir ar gyfer y Gronfa yn cael eu datgan er mwyn cynnig arweiniad o'r hyn fwriedir i'r cyllid ei gyflawni. Mae hefyd yn addas gosod allan rhesymeg glir i gefnogi'r flaenoriaeth.

   b) Rydym, fodd bynnag, yn bryderus fod yr amcanion sydd wedi eu gosod yn rhy benodol ac am gyfyngu'r sgôp i ardaloedd a rhanbarthau benderfynu sut orau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethu o fewn cyd-destun eu hamgylchiadau unigol.

c) Mae hefyd risg fod yr amcanion ar eu ffurf bresennol am lesteirio'r hyblygrwydd i gynlluniau weithio ar draws sawl blaenoriaeth, mae'r hyblygrwydd i gynlluniau gynnig gweithgareddau sydd yn cyfarch sawl nod wedi bod yn gryfder gan yr SPF ac mae'n bwysig gwarchod yr hyblygrwydd yma i'r dyfodol.

ch) Mae gofyn gwirio'r amcanion sydd dan sylw yn erbyn yr amgylchiadau gwireddu'r Gronfa Twf - yn arbennig y prinder cyllid ac amser - er mwyn gwirio fod yr hyn a ddymunir yn ymarferol.

d) Mae ystod o gyfleoedd ariannu a chynlluniau ar waith o fewn nifer o'r meysydd sydd dan sylw (megis ymchwil a datblygu, cyflogadwyedd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy) fydd angen sicrhau fod unrhyw fuddsoddiad pellach yn y meysydd hyn yn ychwanegu gwerth i'r ddarpariaeth bresennol neu yn cyfarch bwlch penodol. Yn yr un modd, bydd angen bod yn wyliadwrus o ganlyniadau anfwriadol, er enghraifft, fod tir amaethyddol da yn cael ei golli i ddatblygiadau ariannwyd gan y Gronfa Twf.

9. Yng nghyswllt cynigion yr ymgynghoriad ar gyfer *pontio a gwireddu* nodwn eto ein barn fod datganoli i'r haen gweithredu briodol yn allweddol i lwyddiant ynghyd â grymuso ardaloedd a rhanbarthau i wneud dewisiadau sy'n briodol i'w amgylchiadau unigol. Nodwn hefyd:

a) Mae'n dderbyniol fod Llywodraeth Cymru yn datgan dymuniad i ardaloedd unigol gydweithio i gyflawnir Cronfa Twf, ond mater i bartneriaid o fewn rhanbarthau yw penderfynu pryd mae cydweithio'n briodol, ffurf y cydweithio maent yn ei ddymuno, y cyfrwng i'w gyflawni a'r ardal ddaearyddol briodol.

b) Mae'r Cyngor yn falch o weld cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru fod amser yn fyr a bod angen sicrhau nad oes oedi i gychwyn y Gronfa Twf drwy ddefnyddio trefniadau gweinyddol presennol yr SPF ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen. Fodd bynnag, i gyflawni hyn mae angen sicrwydd nawr ynglŷn â swm a chyfansoddiad y gyllideb fydd ar gael ac ymrwymiad cadarn i finimeiddio unrhyw newidiadau a gofynion ychwanegol yn y cyfnod gyntaf (a chadarnhad o unrhyw newid mor fuan â phosib).

c) Cytunwn gyda'r cysyniad fod angen gweithredu ar bob haen i gyflawni'r gorau er lles ein trigolion a'n cymunedau ond eto rhaid cydnabod mai ar lawr gwlad mae gweithgaredd yn digwydd a chanlyniadau yn cael eu cyflawni.

ch) Bydd angen bod yn wyliadwrus ar bob cam i warantu nad yw cymhlethdod a gofynion ychwanegol yn cael eu creu wrth symud i'r drefn newydd.

d) Ble mae *gweithgaredd cenedlaethol* yn cael ei ystyried mae angen i hyn fod gyda chysyniad ranbarthau ac ardaloedd lleol ar y sail fod achos clir y glir y gellir cyflawni gwerth ychwanegol neu ganlyniadau gwell.

dd) O ran *methodoleg dyrannu* mae'n bwysig sicrhau fod ystod o fesuryddion yn cael ystyriaeth i adlewyrchu rhinweddau megis ymyled

a phwysigrwydd yr economi yn sicrhau parhad y Gymraeg yn parhau'n iaith feunyddiol o fewn ei gadarnleoedd credwn, er engrafit, fod cyfraddau tâl yn fesur pwysig o lwyddiant economi i gyflawni er budd dinasyddion.

e) Mae'r Cyngor yn fodlon ystyried y gall sefydlu cynllun ar lefel rhanbarthol i gydlynu ymdrechion ar bob haen ac uchafu'r budd fod yn briodol ond - yn unol â'n sylwadau agoriadol - mae gofyn i'r cynllun adlewyrchu'r angen i dwf fod yn gynhwysol ac er bydd trigolion a chymunedau, bydd hefyd angen cynnal hyblygrwydd i ardaloedd unigol gydweithio o fewn a thu hwnt i'w rhanbarth petai hynny o fantais.

f) Yng nghyswllt unrhyw gynllun sydd yn ofynnol a'r gofynion ar gyfer gwerthuso a monitro bydd angen sicrhau fod y gofynion yn rhesymol, yn ymarferol ac yn hyblyg.

Hyderwn bydd yr uchod o ddefnydd i chi a'ch swyddogion wrth gwblhau'r cynllunio ar gyfer cyflawni'r Gronfa Twf Lleol. Nodwch fod yr ymateb yma yn destun trefn penderfynu arferol y Cyngor ac fe all newid yn sgil hynny.

I gloi hoffwn gadarnhau ymroddiad diffuant Cyngor Gwynedd i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn rhanbarthol ac yn lleol i sicrhau llwyddiant y Gronfa; fodd bynnag mae amser yn brin cyn cychwyn y rhaglen ac felly tanlinellwn yr angen am gadarnhad buan o drefniadau 2026/27 a'r angen i sicrhau fod ymarferoldeb a minimeiddio cymhlethdod wrth wraidd bob penderfyniad.

Yn gywir iawn,

Cynghorydd R. Medwyn Hughes
Aelod Cabinet Economi a Chymuned

Copi:

Tom Smithson
Dirprwy Gyfarwyddwr, Strategaeth Economaidd a Rheoleiddio, Llywodraeth Cymru (Thomas.Smithson@gov.wales)

Nadine Young
Pennaeth Buddsoddi Rhanbarthol, Strategaeth Economaidd a Rheoleiddio, Llywodraeth Cymru (Nadine.Young@gov.wales)

Tim Peppin
Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Tim.Peppin@wlga.gov.uk)

Alwen Williams
Prif Weithredwr, Uchelgais Gogledd Cymru (AlwenWilliams@uchelgaisgogledd.cymru)